## P-03-136 Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove
## Geiriad y ddeiseb

'Gofynnwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

1. Gynghori Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i:

- ddarparu digon o le parcio ar y safle ar gyfer staff ac ymwelwyr trwy gael ardaloedd addas ar gyfer parcio i'r ysbyty ar y safle ac ar dir fel yr ardal ddiffaith i'r gogledd o'r rhandiroedd gyferbyn ag Ysbyty'r Mynydd Bychan ar yr ochr arall i Eastern Avenue,
- datganoli rhai o'r gwasanaethau sydd eisoes ar safle'r Mynydd Bychan a
- pheidio â gwerthu tir ysbytai yng Nghaerdydd a'r ardal gyfagos ar gyfer tai.

2. Argymell bod Cyngor Sir Caerdydd yn:

- gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu pellach ar safle Ysbyty'r Mynydd Bychan oni bai bod uned yn cael ei symud o'r safle, a gaiff yr un effaith ar draffig
- peidio â chefnogi datblygiadau amlfeddiannaeth yn yr ardal a
- chyflwyno system parcio am gyfnod cyfyngedig yn y strydoedd sydd o fewn pellter cerdded i Ysbyty'r Mynydd Bychan.

3. Ystyried o fewn y Cynulliad, cyflwyno system a fyddai'n caniatáu i grwpiau lleol apelio i'r Cynulliad pan fydd y cyngor yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad y mae'r trigolion yn ystyried a fydd yn gwaethygu'r broblem barcio yn yr ardal.

**Linc i'r ddeiseb:**
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=862

**Cynigwyd gan:** Y Cynghorydd Ron Page

**Nifer y llofnodion:** 500+

**Ystyriwyd eisoes gan y Pwyllgor ar:** 22 Mai, 9 Gorffenaf, 2 Hydref, 6 Tachwedd 2008, 13 Ionawr, 27 Ionawr, 17 Mawrth, 8 Rhagfyr 2009, 23 Mawrth, 13 Gorffenaf, 16 Tachwedd 2010, 11 Ionawr, 25 Ionawr, 8 Chwefror, 1 Mawrth, 29 Mawrth 21 Mehefin 2011.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.